

Albert Heaney
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Director of Social Services and Integration
Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Department for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Ddarparwyr Cartrefi Gofal
Unigolion Cyfrifol Cartrefi Gofal

Cc:
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl y Byrddau Iechyd
Prif Weithredwyr y Byrddau Iechyd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Data Cymru

26 Mawrth 2020

Annwyl Gyfaill

Mesurau ymateb brys COVID-19

Yn sgil y datblygiadau mewn perthynas â'r achosion o COVID-19, mae'n hanfodol bwysig inni ddeall faint o gapasiti sydd i'w gael mewn cartrefi gofal yng Nghymru. Ysgrifennaf atoch yn gofyn am eich cefnogaeth i'n helpu i gyflawni hyn.

Bydd rhai ohonoch yn ymwybodol ein bod ni wedi bod yn gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu pecyn cymorth capasiti gofal a chymorth di-dâl ar-lein i olrhain nifer y lleoedd gwag mewn cartrefi gofal i oedolion. Byddai gwefan ar gyfer y cyhoedd wedi cyd-fynd â'r pecyn cymorth hwn i alluogi darparwyr cartrefi gofal i farchnata eu gwasanaethau a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i unigolion sy'n chwilio am ofal a chymorth iddynt hwy eu hunain neu i aelod o'r teulu neu ffrind. Roeddem wedi bwriadu cynnal peilot o'r adnodd hwn gyda nifer bach o ddarparwyr ym mis Mai. **Fodd bynnag, er mwyn ymateb i'r sefyllfa bresennol rydym wedi penderfynu cyflwyno fersiwn wedi'i haddasu o'r pecyn cymorth nawr er mwyn galluogi darparwyr ledled Cymru i gofnodi gwybodaeth am leoedd gwag ar y system ar unwaith.** Bydd hyn yn darparu gwybodaeth hanfodol am gapasiti ar draws y sector cartrefi gofal yng Nghymru. Bydd yr wybodaeth ar gael i gomisiynwyr a thimau sy'n rhyddhau cleifion o ysbytai. Ni fydd yr wybodaeth yn cael ei rhyddhau i'r cyhoedd ac ni fydd gwefan ar gyfer y cyhoedd ar hyn o bryd.

Mae'r system yn adeiladu ar wefan bresennol Dewis Cymru a bydd yn defnyddio gwybodaeth o gofrestr darparwyr Arolygiaeth Gofal Cymru i greu cofnod ar gyfer pob cartref gofal yng

Nghymru. O ganlyniad, byddwch yn gallu diweddarau eich gwybodaeth am leoedd gwag yn gyflym iawn pan fydd unrhyw newid. Bydd hyn hefyd yn eich helpu chi fel darparwyr cartrefi gofal yn ogystal â chomisiynwyr a thimau rhyddhau cleifion o'r ysbyty i leihau'r galwadau am wybodaeth am leoedd gwag.

Rwy'n gwybod bod rhai ohonoch chi eisoes o bosibl yn defnyddio systemau lleol sy'n casglu gwybodaeth debyg – gan gynnwys *Canfodlle*. Rydym wedi trafod sut y gall y systemau hyn weithio gyda'i gilydd er mwyn osgoi dyblygu gwaith ond nid ydym wedi cyrraedd y pwynt hwnnw eto. Gofynnaf ichi felly ddefnyddio'r pecyn cymorth cenedlaethol hwn er mwyn sicrhau bod gennym drosolwg cywir o'r sefyllfa ledled Cymru.

Sut i gael mynediad at y system a'i defnyddio

Gallwch gael mynediad at y system drwy'r ddolen hon <https://www.dewis.cymru/>. Bydd angen ichi gofrestru i greu cyfrif gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost yr anfonwyd y neges hon iddo. Pan fyddwch wedi cofrestru, ewch i '*Rheoli adnoddau*' wedyn '*Adnoddau rydych chi'n gyfrifol amdanynt*' lle gwelwch restr o gartref(i) sydd wedi'u rhestru. Cliciwch ar y botwm '*Lleoedd gwag*' ger enw pob cartref er mwyn diweddarau'r wybodaeth am leoedd gwag.

Gwasgwch y botwm gwyrdd '*Cadw'ch newidiadau*' pan fyddwch wedi gorffen. Yn ystod yr wythnosau nesaf, gallwch gael cymorth i ddiweddarau eich gwybodaeth drwy ffonio 07773 486891 rhwng 8am ac 8pm bob dydd. Gallwch hefyd gael cymorth drwy anfon e-bost i help@dewis.wales.

Rwy'n gwerthfawrogi eich bod o dan bwysau ar hyn o bryd ond gofynnaf ichi ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn a chadw'r wybodaeth am leoedd gwag mor gyfredol â phosibl. Er mwyn iddi fod yn ddefnyddiol i bawb, gorau po gynta y bydd y system hon yn gweithio'n effeithiol.

Yn gywir,



ALBERT HEANEY

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio